**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **30 HYDREF 2002** |
| **Lleoliad:** | |
| **Teitl:** | **GWEITHGOR DIOGELWCH TÂN LLEOL - ADRODDIAD AR LOSGI BWRIADOL** |

**Diben**

1. Rhoi'r diweddaraf ar hynt trafodaethau'r Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol (CFSWG) ar faterion a phroblemau sy'n gysylltiedig â Llosgi Bwriadol yng Nghymru, a'i adroddiad drafft ar y broblem - 'Up in Flames' (atodiad 1).

**Crynodeb**

2. O dan amodau Rheol Sefydlog 9.7, mae cyfrifoldeb ar bob un o bwyllgorau pwnc y Cynulliad i gyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad yn y meysydd y mae Ysgrifennydd perthnasol y Cynulliad yn atebol amdanynt ac i adolygu'n barhaus y gwariant a'r gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisïau. Mae adroddiad drafft y Gweithgor ar Losgi Bwriadol yn cysylltu ag agenda ehangach y Cynulliad ar gyfer diogelwch tân yn y Gymuned, a'r nod yw pennu cyfeiriad i bolisi'r Cynulliad yn y dyfodol.

**Cefndir**

3. Sefydlwyd y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol yn dilyn trafodaethau gyda chynrychiolwyr y tri Gwasanaeth Tân yng Nghymru am eu pryderon cyffredin i sicrhau bod y Llywodraeth, cyrff yn y sector cyhoeddus a chyrff yn y sector preifat yn gweithio gyda'i gilydd i leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau a achosir gan dân, ac i ddiogelu eiddo domestig a chyhoeddus yng Nghymru. Cymeradwywyd adroddiad y Gweithgor, 'Wired for Safety', gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ym mis Tachwedd 2001. Yna sefydlodd y Gweithgor Is-Grwp Llosgi Bwriadol i ymdrin yn benodol â llosgi bwriadol yng Nghymru, oherwydd teimlwyd y dylid ystyried y mater ar wahân. Roedd cylch gorchwyl y Grwp yn gofyn iddo wneud argymhellion a llunio strategaeth i daclo'r broblem.

.

**Materion i'w Hystyried**

4. Yn ystod 2000-2001 derbyniodd Gwasanaethau Tân Cymru dros 23,000 o alwadau maleisus a galwadau'n ymwneud â thanau bwriadol. Er mai canran bychan iawn ohonynt (49) oedd yn danau mewn ysgolion, costiodd y rhain dros £2.3 miliwn i'r Gwasanaethau Tân a chymunedau yng Nghymru, gan achosi cryn anghyfleustra i'r Awdurodau Addysg Lleol a chymunedau'r ysgolion a losgwyd, hynny ar ben y costau ychwanegol sylweddol y bu'n rhaid iddynt eu hysgwyddo hefyd. Roedd dros 4,500 o alwadau'n ymwneud â cheir ar dân, gyda chost o dros £18.2 miliwn i gymunedau Cymru, ac yn ystod yr un cyfnod ymatebodd y Gwasanaethau Tân i 531 o achosion o losgi tai preifat yn fwriadol, hynny yn esgor ar gost o £9.1 miliwn a mwy. Roedd gweddill y galwadau a gofnodwyd yn 2000-01 yn ymwneud â mân danau bwriadol mewn adeiladau eraill; tanau bychain eraill (h.y gwair a sbwriel); a galwadau maleisus. Er gwaethaf yr amrywiadau bychan yn nifer y tanau bwriadol o flwyddyn i flwyddyn, mae adroddiad Gwasanaethau Tân Cymru y blynyddoedd diwethaf yn dangos tuedd frawychus, sef bod yr achosion o losgi bwriadol o bob math yn dal i godi.

5. Mae tri Gwasanaeth Tân Cymru yn amcanu bod y tanau bwriadol wedi costio £52 miliwn a mwy yn ystod 2000-01, tra bod galwadau maleisus wedi costio £1.25 miliwn arall yn ystod yr un cyfnod. Cyfrifwyd y costau gan ddefnyddio ffigurau Astudiaeth Ymchwil 229 y Swyddfa Gartref, sef *'The Economic Cost of Fire'*.

6. Treuliodd cyrff â diddordeb yn y maes hwn fisoedd yn trafod y problemau a'r materion sydd ynghlwm wrth losgi bwriadol yng Nghymru, a'r adroddiad *'Up in Flames'* yw ffrwyth y gwaith hwnnw.

7. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, a dyma'r rhai mwyaf arwyddocaol:

- bod Llywodraeth y Cynulliad yn mabwysiadu'r cynigion a wnaed yn yr adroddiad i sefydlu strategaeth Gymru-Gyfan i daclo llosgi bwriadol;
- mabwysiadu systemau taenellu dwr a mesurau eraill i leihau effeithiau ymosodiadau llosgi bwriadol ar ysgolion;
- annog y Partneriaethau Trosedd ac Anrhefn i ystyried y mater o losgi bwriadol, a sefydlu grwpiau lleol (gan adlewyrchu'r arfer gorau mewn ardaloedd eraill), yn benodol ar gyfer ystyried materion fel llosgi ceir a phroblemau lleol;
- ehangu'r mentrau ieuenctid i daclo'r broblem o bobl ifanc sy'n cynnau tanau yn fwriadol; a
- bod Llywodraeth y Cynulliad yn neilltuo arian i gefnogi'r gwaith hwn a Strategaeth Llosgi Bwriadol ar gyfer Cymru, yn yr un modd y clustnodir arian i gefnogi'r gwaith a sbardunwyd gan adroddiad *‘Wired for Safety’*.

8. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnig nifer o dargedau i'w cyflawni yn y tymor byr, canolig a'r tymor hir, i fesur a yw'r Strategaeth Llosgi Bwriadol yn llwyddo i ostwng nifer yr achosion o

losgi bwriadol yng Nghymru.

9. Mae'r Gweithgor wedi cymeradwyo'r adroddiad yn atodiad 1, sydd bron â bod ar ei ffurf derfynol, ond nid yw wedi ei gylchredeg yn eang eto. Serch hynny, rhoddwyd copi ohono i'r Uned Polisi Tân yn Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, a lleisiwyd pryderon ynghylch rhai agweddau o'r adroddiad. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â:

- data a ddefnyddir yn yr adroddiad - mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog o'r farn y dylai'r data ddiweddaraf fod yn sail i unrhyw ystyriaeth o'r mater. Mae'r Gweithgor o'r farn mai dyma'r wybodaeth a ddefnyddiwyd, ac i'r Gwasanaethau Tân hefyd ddefnyddio'r data diweddaraf sy'n ymwneud yn benodol â Chymru;
- cynrychiolaeth yn y Grwp - roedd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog am weld bod yr holl adrannau â diddordeb yn y pwnc wedi cael cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Grwp. Mae'r Gweithgor yn fodlon bod y gynrychiolaeth yn addas ac yn cymryd i ystyriaeth y modd y mae'r cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng y Cynulliad a'r llywodraeth ganolog;
- roedd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn pryderu ynghylch cael mwy o fesurau atal tân mewn ysgolion nag sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth bresennol (e.e. yn y Rheoliadau Adeiladau); a
- materion bychain eraill.

10. Ar hyn o bryd mae swyddogion y Cynulliad a chynrychiolwyr y Gweithgor yn ystyried y manylion a roddwyd yn llythyr Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, ac yn trafod a ddylid adolygu'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi'n derfynol a'i ddosbarthu.

**Goblygiadau Ariannol**

11. Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllideb o £3 miliwn i ddatblygu polisi diogelwch tân cymunedol a gwaith y Gweithgor yn ystod 2001-02. Bwriad Llywodraeth y Cynulliad yw cynyddu'r gyllideb diogelwch tân cymunedol i £4 miliwn ar gyfer 2002-2003, er mwyn ariannu'r datblygiadau sy'n gysylltiedig â 'Wired for Safety' - adroddiad cyntaf y Gweithgor, a'r adroddiad ar Losgi Bwriadol - 'Up in Flames'. Wedi pwyso a mesur argymhellion yr adroddiad a chost eu rhoi ar waith, mae Llywodraeth y Cynulliad yn amcanu mai tua £1 miliwn fydd y baich ariannol newydd, ond byddwn yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r ffynonellau cyllid presennol lle y bo hynny'n bosibl.

**Cydymffurfio**

12. Os yw'r Cynulliad yn cymeradwyo'r adroddiad, yna bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y materion cydymffurfio a'r materion cyfreithiol sy'n deillio o bob argymhelliad unigol. Serch hynny, wrth fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen mae'n debygol y byddwn yn arfer grymoedd dan adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996, sy'n datgan bod cymorth ar gael i dalu costau gweithgareddau sy'n cyfrannu at adfywio ardal. Er ei bod yn bosibl na

ystyriwyd diogelwch tân yn y cyd-destun hwn, mae paragraff (2) yn rhestru'r mathau o weithgareddau sy'n cyfrannu at adfywio a datblygu ardal. Mae creu amgylchedd diogel a deniadol ymysg yr enghreifftiau a restrir. Gellid dadlau, felly, bod taclo llosgi bwriadol yn gyson â'r datganiad hwn. Fodd bynnag, dylid cadw dau beth mewn cof. Mae'r pwer hyn yn cael ei gyfyngu i weithgareddau mewn *"ardal"*, ac efallai nad yw hyn yn cynnwys y wlad yn gyfan. Wedi dweud hynny, mae adran 126 yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban, ac yn y cyd-destun hwn gellid dadlau bod Cymru yn "ardal". Yn ddiweddar mae Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (OCG) wedi cytuno ei bod yn bosib dehongli'r geiriau yn y modd hwn, a bod y Cynulliad wedi bod yn defnyddio'i bwerau yn unol â hyn - ceir enghraifft ddiweddar o hyn adeg sefydlu Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedau Cymru. Hyd yn hyn does neb wedi herio'r dehongliad hwn.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

13. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefylla o ran adroddiad y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol, 'Wired for Safety', ac i gyflwyno eu sylwadau.

**Y Gangen Adeiladu ac Ynni Domestig - Y Gyfarwyddiaeth Dai**